

Portffolio

by Jessica Williams

Submission date: 14-May-2020 03:08PM (UTC+0100)

Submission ID: 127601760

File name: 4384_Jessica_Williams_Portffolio_161814_1501702534.docx (168.37K)

Word count: 5127

Character count: 30933

Rhan 1

Y dyddiau hyn rydym yn gweld plant yn cael mwy o fynediad i dechnoleg fel iPad's, ffonau symudol ac yn y blaen. Cefnogwyd hyn gan Winther (2017) gan ei fod yn dweud mae defnydd plant o dechnoleg ddigidol wedi cynyddu'n gyflym dros y degawd diwethaf. Rydym yn gweld hyn yn y cartref, lleoliadau blynyddoedd cynnar ac yn ysgolion. Mae Ofcom (2018a) yn nodi canrannau o blant o ran technoleg, er enghraifft mae 30% yn gwyllo teledu ar ddyfeisiau eraill, yn enwedig ar dabled. Mae 36% yn chwarae gemau am bron 6 1/4 awr yr wythnos ac mae 45% yn defnyddio YouTube. Hefyd, rydym yn gwybod mae yna lawer o fanteision ac anfanteision o blant yn cael mynediad i dechnoleg. Fodd bynnag, mae Ofcom (2018b) yn dweud mae mwyafrif yn cydnabod bod buddion ar-lein yn gorbwyso'r anfanteision, er mae llawer yn cydnabod bod mynediad i'r rhyngwrdd yn tarfu ar berthnasodd.

Yn gyntaf byddaf yn dechrau trwy siarad am yr anfanteision mae plant yn gallu cael o ddefnyddio gormod o dechnoleg. Mae Chassiakos a Radesky et al. [2016] yn dweud bod defnydd y cyfryngau yn effeithio'n negyddol ar gwsg. Mae defnyddio'r cyfryngau, gwyllo teledu, mynd ar y cyfrifiadur neu ffôn symudol yn yr ystafell wely yn effeithio ar gwsg plant oherwydd maen nhw'n gallu cael llai o funudau o gwsg yn y nôs. Hefyd, pan fydd plant ar y cyfryngau gallan nhw weld rhywbeth anwedus sydd yn gallu effeithio ar eu cwsg. Hefyd mae defnydd sgrin yn ystod y dydd yn effeithio ar gwsg. Awgryma hefyd fod tystiolaeth bod babanod 6-12 mis oedd yn agored i sgrin yn ystod oriau'r nôs yn gysylltiedig â chwsg byrrach na'r rhai nad oedd ganddynt unrhyw gyswllt a'r sgrin yn y nôs. Cytunwyd Zimmerman (2008) hefyd bod y cyfryngau yn effeithio ar gwsg plant. Dywed pan rydym yn gwyllo teledu mae yna ddiweddbwynt pan ddaw sioe i ben ond mae cyfryngau fel y rhyngwrdd, gemau electronig a ffôn heb strwythur, heb unrhyw amser cychwyn na gorffen ac mae hwn yn awgrymu nid yn unig y gallai defnydd cyfryngau effeithio ar gyfanswm y cwsg ond hefyd yn effeithio ar ansawdd cwsg trwy feithrin amser gwely afreolaidd. Bydd plant hefyd ddim yn gwybod pryd i roi ei dabledi i lawr os nad oes amser gorffenedig. Bydd American College of Pediatricians (2016) hefyd yn cytuno bod y cyfryngau yn effeithio ar gwsg trwy ddweud gall defnydd o'r cyfryngau ymyrryd a nifer ac ansawdd o gwsg. Gall plant deffro yn ystod y nôs ac yn cael 'nightmares'. Dywed hefyd mae

hyn yn arwain at ordewdra, clefyd y siwgr, methiant yn yr ysgol a phroblemau ymddygiad fel 'hyperactivity'. Ac mae hyn yn fy arwain i at fy anfantais nesaf o ddefnyddio'r cyfryngau sef iechyd corfforol.

Mae House of Commons (2019) yn honni mae effeithiau negyddol iechyd corfforol yn ymwneud a disodli gweithgareddau sydd yn fwy gwerthfawr megis ymarfer corff, cymdeithasu wyneb i wyneb neu ddarllen llyfr i ddefnyddio'r cyfryngau. Nodir mae lefelau isel o weithgaredd corfforol sy'n gysylltiedig â defnyddio technoleg ddigidol yn cael eu cysylltu â gordewdra a chlefyd y siwgr. Mae amser sgrin yn effeithio ar ordewdra oherwydd rydych yn eistedd lawr yn edrych ar y cyfryngau ac nid ydych yn llosgi calorïau. Hefyd ar-lein mae'n agored i hysbysebu bwyd dwysedd uchel ond byddai Chassiakos a Radesky et al. [2016] yn dadlau hyn trwy ddweud mae hysbysebu bwyd ar-lein yn cael ei lleihau oherwydd mae plant dyddiau hyn yn gwyllo pethau fel Netflix lle nad yw'n cynnal hysbysebion. Mae Gottschalk (2019) hefyd yn dweud mae amser sgrin estynedig fel gwyllo teledu a defnyddio'r cyfrifiadur wedi cael i gysylltu â gordewdra mewn plant. Gall hyn digwydd trwy fwyta wrth wyllo'r teledu, sydd yn gysylltiedig gyda chynnydd yn y cymeriant egni. Bydd Chassiakos a Radesky et al. [2016] hefyd yn sôn am fod plant ar y cyfryngau yn arwain at ordewdra gan ei fod yn dweud pan rydych yn defnyddio lawer o'r cyfryngau yn y blynyddoedd cynnar mae'n gysylltiedig â chynnydd bach yn BMI ac mae hwn yn arwain at ennill mwy o bwysau yn ddiweddarach yn ystod plentyndod. Awgryma hefyd mae astudiaeth fwy diweddar bod cael teledu yn yr ystafell wely a mwy o ddefnydd o amser sgrin oedd a chysylltiad cryf â gordewdra. Awgryma hefyd mae astudiaeth ryngwladol gyda bron 300,000 o blant a phobl ifanc fod gwyllo rhwng 1 a 3 awr o deledu bob dydd yn arwain at gynnydd o 10% i 27% yn y risg o ordewdra. Mae Winchester (2019) yn dweud bod Cancer Research UK wedi nodi bod plant ifanc sy'n treulio llawer o amser ar-lein neu'n gwyllo teledu yn lawer mwy tebygol o fod yn ordew ac yn gofyn i'w rhieni i brynu bwyd sothach iddynt.

Yr anfantais olaf rwyf am drafod yw bod defnyddio'r cyfryngau yn cael effaith negyddol ar iechyd meddwl plant. Byddai Bupa (2018) yn dweud mae datblygiadau mewn technoleg a chyfryngau cymdeithasol yn gwneud hi'n haws i blant gael gafael i

wybodaeth. Gall hyn hefyd helpu eu dysgu a'u gallu i gysylltu â ffrindiau a theulu. Fodd bynnag, mae'n gallu cael effaith negyddol ar iechyd meddwl a lles plentyn. Gall yr awydd i aros yn gysylltiad ymyrryd a gweithgareddau fel cymdeithasu, bwyta a chysgu. Hefyd os mae plant yn gweld diweddariadau cyson ar fywydau pobl eraill mae hyn yn gallu cael effaith ar eu hiechyd meddwl. Mae Swist a Collin et al. (2015) hefyd yn cytuno trwy ddweud mae technolegau newydd yn cyfrannu at ganlyniadau iechyd meddwl gwael. Ond hefyd mae siberfwlio hefyd yn rhywbeth mae plant yn gallu profi sydd yn gallu cael effaith negyddol ar iechyd meddwl. Cytunwyd Papamichail a Sharma (2019) hefyd trwy ddweud mae tystiolaeth yn awgrymu bod defnydd trwm o'r cyfryngau cymdeithasol yn gysylltiedig ag iechyd meddwl gwael. Dywed mae grwpiau bregus o blant yn aml yn cael eu heffeithio sydd yn dod o ymchwil sy'n archwilio effaith cyfryngau cymdeithasol ar iechyd meddwl plant. Yn gyffredinol, mae ymchwil wedi canfod cysylltiadau ar y sgrin ag effeithiau negyddol fel iselder mewn plant. Hefyd awgryma mae plant sydd yn defnyddio'r cyfryngau yn gysylltiedig ag anhapusrwydd sydd wedyn yn arwain at broblemau iechyd meddwl. Trwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol mae plant yn agored i ddelweddau o sut dylai corff unigolyn edrych, ac yn aml mae'r delweddau hyn yn afrealistig o ddelwedd corff sydd hefyd yn gallu cael effaith negyddol ar iechyd meddwl plant. Mae Winchester (2019) yn dweud mae defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn gysylltiedig â lefelau uwch o les na dim defnydd. Fodd bynnag, mae ymchwil bellach hefyd â chysylltiadau cryf rhwng defnyddio cyfryngau cymdeithasol am fwy na phedair awr y dydd yn gysylltiedig â lles isel mewn plant.

Nawr byddaf yn symud ymlaen i siarad am y manteision o blant yn defnyddio'r cyfryngau. Mae Chassiakos a Radesky et al. [2016] yn dweud nid yw defnydd o gyfryngau heb ei fuddion, ond mae'r buddion yn dibynnu ar oedran a cham datblygu plentyn, nodweddion plentyn, sut mae'r cyfryngau'n cael eu defnyddio (gan riant neu heb) a chynnwys a dyluniad y cyfryngau. Un fantais o blant yn defnyddio'r cyfryngau yw ei fod yn addysgol ac yn hybu dysgu plant. Bydd Chassiakos a Radesky et al. [2016] yn dweud mae tystiolaeth o fuddion a nodwyd o ddefnyddio cyfryngau digidol a chymdeithasol yn cael ei gysylltu â dysgu cynnar a bod plant yn datblygu syniadau a gwybodaeth newydd. Hefyd awgryma mae adeiladu perthnasoedd â chymeriadau teledu (fel cymeriadau sy'n siarad â'r plant fel Elmo a Dora) hefyd wedi cael eu

dangos i wella dysgu plant bach. Mae Llywodraeth Cymru (2015) yn nodi yn Fframwaith y Cyfnod Sylfaen mae TGCh yn cael ei nodi fel rhan bwysig o ddysgu'r plant. Dywed dylai TGCh fod yn gyfannol ac yn rhan annatod o'r cwricwlwm. Ond nawr mae TGCh hefyd a rôl bwysicach i ddysgu plant oherwydd mae'n cael ei weld yn un o'r tair elfennau drawsgwricwlaidd, sef Cymhwysedd Digidol sydd yn dod mas yn 2022, cefnogwyd hyn yn Llywodraeth Cymru (2019). Yn cefnogi hyn ymhellach mae cyfrifoldebau Cymhwysedd Digidol yn cefnogi bron pob dysgu. Dywed hefyd bydd ymarferwyr yn cynllunio trwy feddwl am Gymhwysedd Digidol, ac felly bydd hyn yn cael ei weld wedyn yn dysgu bron pob dydd plentyn. Mae Donaldson (2015a) yn honni hefyd mae Cymhwysedd Digidol mor bwysig i feddwl, dysgu a bywyd, y dylid eu datblygu ar draws y cwricwlwm cyfan. Mae'r adroddiad hefyd yn awgrymu y dylid datblygu Fframwaith Cymhwysedd Digidol i sefydlu dilyniant yn dysgu plant ac felly mae hwn yn dystiolaeth bellach i brofi mae Cymhwysedd Digidol yn rhywbeth gwerthfawr i ddysgu plant. Mae Olley (dim dyddiad) yn awgrymu mae Piaget yn edrych ar y plentyn fel "gwyddonwyr bach" sy'n arbrofi ac yn archwilio ei fyd. Mae hyn yn awgrymu mae plant yn gallu archwilio trwy ddefnyddio technoleg ac mae'r rhain yn gallu helpu nhw ymhellach sydd yn gwneud iddyn nhw yn fwy annibynnol sydd yn arwain eu dysgu. Bydd Nabavi (2012) yn cytuno ymhellach bod technoleg yn gallu datblygu dysgu plant wrth feddwl am 'social learning theory' Bandura. Mae'r theori hon yn seiliedig ar y syniad rydyn ni'n ei ddysgu o beth ni'n gweld. Fodd bynnag, bydda Chassiakos a Radesky et al. [2016] yn dadlau bod y cyfryngau ddim yn gallu hybu dysgu ac addysgu rhai plant trwy ddweud mae tystiolaeth yn dangos nid oes llawer o fuddion am addysg o gyfryngau i blant iau na 2 oed. Dywed mae rhyngweithio personol â rhieni yn llawer mwy effeithiol na fideo ar gyfer dysgu.

Mantais arall o blant yn defnyddio'r cyfryngau yw ei fod yn hybu cyfathrebu plant. Bydd Chassiakos a Radesky et al. [2016] yn cytuno trwy ddweud mae astudiaeth ymchwil wedi awgrymu buddion defnyddio cyfryngau ar gyfer plant heddiw, megis cyfathrebu ac ymgysylltu. Mae Kolucki a Lemish (2011) yn cytuno hefyd trwy ddweud mae ymchwil yn awgrymu bod cynhyrchion cyfryngau o ansawdd da a gynhyrchir ar gyfer plant yn gallu fod yn effeithiol wrth hyrwyddo nodau datblygu plant. Er enghraifft, profwyd bod teledu addysgol yn annog parodrwydd ysgolion ymhlith plant cyn iddyn nhw fynd i'r ysgol. Mae'r dull hwn yn ynghlwm yn gryf a'r

maes datblygu cyfathrebu. Hefyd, yn ôl Donaldson (2015b) mae yna 4 pwrpas i'r cwricwlwm ac un ohonyn nhw yw bod plant yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog sydd yn gallu defnyddio technolegau digidol yn greadigol i gyfathrebu. Mae hyn yn dystiolaeth mae technolegau yn ffordd i blant i hybu eu cyfathrebu. Yn ehangu ar hwn dywed bod Cymhwysedd Digidol yn chwarae rhan bwyrus ym mywydau plant ar gyfer cyfathrebu. Fodd bynnag, mae McLeod (2018) yn dweud mae Vygotsky a Piaget yn dadlau fod rhyngweithio cymdeithasol yn fwy effeithiol i'r plentyn. Yn ôl Vygotsky, mae dysgu'r plentyn yn digwydd mewn cyd-destun cymdeithasol gyda rhywun mwy medrus. Felly mae hwn yn dweud wrthym mae rhyngweithio a chyfathrebu yn ffordd effeithiol ac felly ddim mor effeithiol wrth ddefnyddio'r cyfryngau i hybu cyfathrebu plant.

A'r fantais olaf rwyf am siarad am yw bod y cyfryngau yn gallu cael effaith cadarnhaol ar blant sydd ag anableddau ac anghenion ychwanegol. Bydd House of Commons (2019) yn cytuno a hyn oherwydd pwysleisiodd 'YoungMinds' a 'The Children's Society' y potensial mae'r cyfryngau cymdeithasol yn gallu cael ar blant ag anableddau. Mae plant sydd ag anableddau/anghenion ychwanegol yn gallu cael ymdeimlad o berthyn, hunaniaeth a chymuned. Gall perthyn i gymunedau ar-lein gefnogi plant sydd yn teimlo'n ynysig oherwydd anableddau neu anghenion ychwanegol. Nododd hefyd gall gemau ar-lein sydd ag elfen gymdeithasol yn gallu tynnu'r awyrgylch negyddol yn enwedig i bobl â gwahanol fathau o anabledd a allai gael eu gadael allan. Bydda Chmiliar [2017] yn dweud mae tabledi yn cynnig posibiliadau i blant sydd ag anableddau yn y blynyddoedd cynnar fel archwilio a dysgu mewn ffordd ddigidol. Mae yna dystiolaeth hefyd mae plant sydd ag anableddau yn gallu defnyddio'r iPad yn annibynnol. Mae Bodrova a Leong [2015] yn honni bod Vygotsky yn pwysleisio "more knowledgeable other". Ac mae hwn yn cyd-fynd â iPad's, mae plant sydd ag anableddau yn gallu datblygu ymhellach trwy ddysgu o'r iPad's.

I gloi, gallwch weld mae yna nifer o anffanteision a manteision o blant yn defnyddio'r cyfryngau. Rydym yn gwybod mae risgiau ar-lein fel gordewdra ac iechyd meddwl

ond fel rydym yn gwybod mae TGCh yn dod mewn i ddysgu'r plant ac felly mae hyn yn pwysleisio mae rhaid bod technoleg heddiw yn bwysig ym mywydau plant.

Adran 2 – Cynllun Gweithgaredd

Cynllun Gweithgaredd		
Gweithgaredd: - Plant yn mynd mas i edrych am anifeiliaid/pryfed o fewn grwpiau o 3 - Plant yn tynnu lluniau o'r pryfed ar yr iPad's - Plant yn dod nôl mewn i'r dosbarth i wneud 'slide-show' o'r pryfed maent wedi eu darganfod - Plant yn dangos hyn i'r dosbarth o fewn y grwpiau roedden nhw mewn gan ddefnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol		
Nifer o blant: 12	Oed y plant: 4-5 mlwydd oed	Nifer o oedolion: 3
Lleoliad: Ysgol	Amser paratoi: 10 munud	Amser gweithgaredd: 30 munud i archwilio am anifeiliaid ac 1 awr i wneud 'slide-show' a'u cyflwyno
Adnoddau: Bydd angen i'r plant cael: - iPad's er mwyn tynnu llun o'r pryfed - Chwyddwydr er mwyn helpu edrych am y pryfed bach - Lluniau wedi cael i brintio o wahanol bryfed byddan nhw yn gallu darganfod a'u henwau o'r pryfed arno		
Amcan/ion y weithgaredd Bydd y plant yn: - Adnabod anifeiliaid gwahanol - Yn fwy annibynnol - Dysgu sut i weithio o fewn tîm - Adnabod sut i dynnu llun ar iPad - Datblygu sgiliau digidol trwy adnabod sut i wneud 'slide-show' - Datblygu sgiliau cyfathrebu trwy siarad am y pryfed gwahanol maent wedi eu darganfod - Datblygu sgiliau mathemateg trwy adnabod os oedd rhai pryfed/anifeiliaid yn fach neu yn fawr		
Cysylltiadau â deilliannau: Bydd y plant yn cwrdd â'r 7 maes dysgu: - Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Diwylliannol - Sgil Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu - Datblygiad Mathemategol - Datblygiad Iaith Cymraeg - Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd - Datblygiad Corfforol - Datblygiad Creadigol		

Wrth feddwl am y Fframwaith Cymhwysedd Digidol, bydd y plant yn cwrdd â'r llinynnau:

- Rhyngweithio a chydweithio
- Cynhyrchu

Gwahaniaethu:

- Addasu'r gweithgaredd i blant sydd ag anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol er mwyn iddyn nhw gymryd rhan yn y gweithgaredd heb unrhyw rwystrau yn eu ffordd
- Rhoi help i'r rhai sydd ddim wedi cael profiad digidol trwy dangos beth i wneud yn gyntaf neu efallai os nad yw rhai o'r plant wedi cael llawer o brofiad â dyfeisiau digidol, efallai ein bod ni yn rhoi un plentyn sydd yn fwy gwybodus i ddefnyddio'r iPad o fewn eu grwpiau er mwyn helpu'r plant arall yn y grŵp

Rôl yr oedolyn/oedolion:

- Arsylwi'r plant
- Sicrhau bod asesiad risg lan i ddyddiad
- Printio mas gwahanol bryfed i'r plant ar bapur er mwyn iddyn nhw gael gweld pa fath o bryfed mae angen iddyn nhw edrych amdano
- Esbonio'r gweithgaredd ac wedyn sicrhau bod pob plentyn yn deall
- Gwneud yn siŵr bod pob plentyn unigryw yn gallu cymryd rhan yn y gweithgaredd, er enghraifft, os mae ganddyn nhw unrhyw anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol

Y weithgaredd:

Bydd y plant yn mynd mas i archwilio am bryfed o fewn grwpiau o 3. Byddan nhw yn mynd â iPad gyda nhw ac yn tynnu lluniau o unrhyw bryfed maen nhw'n gweld gyda help o'r lluniau sydd wedi cael i brintio o wahanol bryfed. Ar ôl gwneud hyn byddan nhw yn dod nôl mewn ac yn gwneud 'slide-show' o'r anifeiliaid maent wedi eu darganfod ac yn dangos a thrafod i'r dosbarth beth maen nhw wedi darganfod o fewn eu grwpiau.

Adran 3 – Gwerthusiad o'r Gweithgaredd

Yn yr adran hon byddaf yn gwerthuso'r gweithgaredd rwyf wedi cynllunio. Yn syml y gweithgaredd oedd bod y plant yn mynd allan i archwilio am anifeiliaid/pryfed ac wedyn yn tynnu llun ar yr iPad o beth maen nhw'n darganfod, byddan nhw wedyn yn dod nôl mewn i'r dosbarth ac yn creu 'slide-show' o'r pryfed ac yn gwneud cyflwyniad i'r dosbarth trwy ddefnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol. Rwyf wedi penderfynu gwneud y gweithgaredd yma oherwydd rwy'n meddwl bydd y gweithgaredd yma yn un fydd y plant yn mwynhau gwneud. Mae'n un ymarferol felly ni fydd yn anddiddorol i'r plant ac mae hoff gan fwy afryf o blant mynd mas i archwilio am bethau, yn enwedig anifeiliaid.

Mae Llywodraeth Cymru (2018) yn nodi o fewn y Fframwaith Cymhwysedd Digidol mae yna bedwar llinyn sydd wedi cael eu rhannu mewn i elfennau. Trwy feddwl am fy ngweithgaredd i un o'r llinynnau sydd yn gysylltiedig yw rhyngweithio a chydweithio. O fewn y llinyn yma mae yna tair elfen. Un o'r elfennau yw cyfathrebu ac mae Llywodraeth Cymru (2018) yn dweud bydd y dysgwyr yn yr elfen yma yn archwilio gwahanol ddulliau o gyfathrebu electronig ac mae fy ngweithgaredd i yn dilyn hyn oherwydd ar ôl iddyn nhw wneud y gweithgaredd bydd y plant yn dod nôl mewn i'r dosbarth ac yn creu 'slide-show' o'r anifeiliaid maent wedi darganfod tu allan. Trwy wneud hyn bydd y plant o fewn eu grwpiau yn dechrau cyfathrebu gyda'i gilydd trwy wneud penderfyniadau am y pryfed maen nhw wedi darganfod a pha rhai maen nhw eisiau dangos i'r dosbarth. Gallan nhw gyfathrebu am rai sydd yn fwy diddorol na'r llall neu'r rhai nid ydym yn gweld yn aml. Byddan nhw wedyn yn ymddangos y 'slide-show' ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol i'r dosbarth, ac fan hyn hefyd rydym yn gallu gweld elfen o gyfathrebu gan fydd y plant yn cyfathrebu yn ôl i'r dosbarth am y pryfed maent wedi eu darganfod trwy ddefnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol.

Elfen arall sydd yn gysylltiedig â fy ngweithgaredd i yw cydweithio, sydd hefyd yn dod o Llywodraeth Cymru (2018). Dywed dylid plant archwilio ystod o ddulliau cydweithio ac wedyn yn datblygu'r sgiliau i gydweithio mewn nifer o wahanol sefyllfaoedd. Mae fy ngweithgaredd i yn cefnogi hyn oherwydd bydd y plant yn

gweithio gyda'i gilydd trwy greu 'slide-show' ond hefyd yn gweithio gyda'i gilydd trwy drafod i'r dosbarth yn defnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol. Pan fyddan nhw yn gwneud hyn byddan nhw'n dod yn ddysgwyr mwy annibynnol. Cefnogwyd hyn ymhellach gan fod Turuk [2008] yn dweud bod Vygotsky yn honni bod dysgu'n deffro amrywiaeth o ddatblygiadau dim ond pan fydd y plentyn yn rhyngweithio a phobl yn ei amgylchedd. Mae hyn yn dweud wrthym fod plant yn dysgu wrth ei gilydd pan fyddan nhw yn rhyngweithio.

A'r elfen olaf sydd hefyd yn gysylltiedig â fy ngweithgaredd i yw storio a rhannu. Ar ôl i'r plant creu 'slide-show' i ddangos y pryfed bydd angen iddyn nhw arbed y 'slide-show'. Bydd y plant wedyn yn arbed eu gwaith a gwneud enw i'r ffeil. Cefnogwyd hyn yn Fframwaith Cymhwysedd Digidol (2019a) sydd yn dweud mae'r elfen yma yn ymwneud a chadw gwaith trwy glicio ar eicon a deall eu bod nhw yn gallu adfer y gwaith ond hefyd eu bod nhw yn gallu enwi'r ffeil.

Llinyn arall sydd yn gysylltiedig â fy ngweithgaredd i yw cynhyrchu. Fan hyn eto mae yna tair elfen. Un o'r elfennau sydd yn gysylltiedig â fy ngweithgaredd i yw cynllunio, cyrchu a chwilio. Mae'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (2019b) yn dweud mae plant yn dangos ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ei hangen i gwblhau tasg ddigidol fel defnyddio'r offer digidol a roddir i wneud tasg. Mae fy ngweithgaredd i yn gysylltiedig â'r elfen cynllunio, cyrchu a chwilio oherwydd bydd y plant yn cynllunio 'slide-show' er mwyn dangos i'r dosbarth. Bydd y plant yn mynd mas gyda iPad's a fyddan nhw yn tynnu lluniau o'r pryfed sydd yn rhan o'r cyrchu a hefyd fel rhan o'n weithgaredd byddwn ni yn rhoi lluniau sydd wedi dod ar-lein o wahanol bryfed i'r plant er mwyn helpu nhw i weld pa bryfed maen nhw'n gallu dod o hyd i felly mae hyn hefyd yn rhan o chwilio plant. Fodd bynnag, gallwn ni wedi addasu hyn trwy adael y plant archwilio ar y rhyngwrdd am wahanol bryfed er mwyn helpu nhw datblygu eu sgiliau chwilio ymhellach.

Elfen arall sydd yn gysylltiedig yw creu sydd yn cael ei gefnogi yn Llywodraeth Cymru (2017). Mae hyn yn gysylltiedig â fy ngweithgaredd i oherwydd bydd y plant yn creu dogfen 'slide-show' ac yn dangos hyn i'r dosbarth. Bydd yr elfen olaf sef gwerthuso a gwella hefyd yn gysylltiedig oherwydd yn cyfeirio nôl at Fframwaith

Cymhwysedd Digidol (2019b) dywed yn yr elfen yma bydd plant yn edrych ar eu gwaith eu hunain ac yn newid neu yn cywiro eu gwaith. Mae hyn yn gallu bod o fewn y 'silde-show', bydd y plant yn gallu edrych ar hwn cyn ymddangos i'r dosbarth a chwestiynu beth maen nhw'n mynd i rannu i'r dosbarth, ydyn nhw yn dangos y pryfed maen nhw eisiau ar y 'silde-show' ac ydy'r lluniau maen nhw wedi tynnu yn ddigon dda i ymddangos ar y 'slide-show'. Fodd bynnag, efallai mae'r elfen yma o fewn fy ngweithgaredd i yn wan oherwydd gallaf wedi gwneud rhywbeth ag oedd yn cefnogi'r elfen yma yn fwy fel creu poster oherwydd trwy wneud hyn fydd yna mwy o gyfleoedd i blant i werthuso.

Mae Donaldson (2015) yn nodi pwysigrwydd cymhwysedd digidol. Dywed mae cymhwysedd digidol yr un mor bwysig â llythrennedd a rhifedd. Awgryma mae cymhwysedd digidol mor bwysig i feddwl, dysgu a bywyd fel dylid eu datblygu ar draws y cwricwlwm llawn. Hefyd yn y dyfodol mae'r gweithle yn gofyn am lefelau uchel o gymhwysedd digidol felly mae'n holl bwysig ein bod yn datblygu hyn i blant. Mae cymhwysedd digidol hefyd yn un o'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Cefnogwyd hyn yn Donaldson (2015). Dywed mae cymhwysedd digidol yn chwarae rhan bwyrus ym mywydau plant ar gyfer cyfathrebu, rhwydweithio a chael gwybodaeth. Awgryma byddai gwahanol agweddau yn cael eu cynnwys yn y meysydd dysgu a phrofiad ac felly mae fy ngweithgaredd i hefyd yn cysylltu â'r meysydd dysgu.

Mae fy ngweithgaredd i yn cefnogi llythrennedd a chymhwysedd digidol oherwydd dywed Llywodraeth Cymru (2018) cymhwysedd digidol yw'r set o sgiliau, gwybodaeth ac agweddau sy'n caniatáu i rywun defnyddio technolegau yn hyderus ac yn greadigol. Mae fy ngweithgaredd wedi cwrdd â hyn oherwydd ar ôl iddyn nhw orffen y gweithgaredd byddan nhw yn gallu fod yn fwy hyderus trwy ddefnyddio technolegau fel yr iPad a'r bwrdd gwyn rhyngweithiol. Yn fy ngweithgaredd i hefyd fydd y plant yn defnyddio'r iPad er mwyn tynnu lluniau o wahanol bryfed. Byddaf yn rhoi'r iPad i'r plentyn yn y grŵp o 3 sydd wedi cael bach mwy o brofiad wrth ddefnyddio'r iPad. Cefnogwyd hyn gan Abtahi [2017] sydd yn dweud bod Vygostky yn meddwl bod plant yn dysgu yn y presenoldeb o bobl eraill, plentyn sydd yn fwy gwybodus. Felly trwy roi'r iPad i'r plentyn sydd yn fwy gwybodus bydd plant eraill yn gallu dysgu wrthyn nhw.

Mae Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) yn sôn am y 4 pwrpas yn y cwricwlwm newydd sydd yn dod mas. Yn fy ngweithgaredd bydd y plant yn gallu dewis pa fath o bryfed maent am ddarganfod tu allan a pa rhai maen nhw angen dangos i'r dosbarth. Mae fy ngweithgaredd i yn gwneud yn siŵr bod y plant yn dilyn un o'r pwrpasau sef bod plant yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith gan eu bod nhw yn gallu gwneud penderfyniadau eu hunain ac yn gallu bod yn ddysgwyr creadigol trwy wneud y 'slide-show'. Cefnogwyd hyn ymhellach gan Llywodraeth Cymru (2018) trwy ddweud os mae plant yn cyrraedd lefel uwch o ran llythrennedd a rhifedd ac yn gwella'u cymhwysedd digidol byddan nhw yn gallu fod yn ddysgwyr mentrus a chreadigol.

Un rôl newydd sydd wedi cael i roi i ymarferwyr/athrawon yn y cwricwlwm newydd yw eu bod nhw yn cynllunio ar gyfer y plant. Cefnogwyd hyn yn Llywodraeth Cymru (2020a) gan ei fod nhw'n dweud mae rhaid i ysgolion ddylunio cwricwlwm sy'n cyflawni gofynion y cwricwlwm. Mae Llywodraeth Cymru (2020b) yn dweud o fewn y cwricwlwm newydd mae'n rhaid cynllunio cyfleoedd dysgu trwy arsylwi yn rheolaidd. O fewn fy ngweithgaredd i os byddaf yn arsylwi byddaf yn gallu gweld lefelau dealltwriaeth plant a datblygiad plant o'u lefel cymhwysedd a llythrennedd digidol. Byddai'n gallu gweld os yw'r plant yn ffeindio'r gweithgaredd yn anodd. Os mae'r weithgaredd yn anodd i rai plant byddaf wedyn yn gallu cynllunio rhywbeth sydd yn symlach.

Wrth feddwl am blant sydd ag anghenion ychwanegol neu anabledau, yn fy marn i mae'r gweithgaredd yn addas iddyn nhw. Er enghraifft, i blant sydd ag awtistiaeth. Mae National Autistic Society (2015) yn dweud mae defnyddio technoleg yn cael effaith positif i blant sydd ag awtistiaeth oherwydd gallan nhw ddysgu sgiliau newydd ac yn dechrau cychwyn mwy o gyswllt o'r rhai o'u gwmpas fel dangos i'w athrawon beth maen nhw wedi gwneud. Mae fy ngweithgaredd yn cefnogi plant sydd ag awtistiaeth oherwydd gallan nhw ddefnyddio'r iPad, cael cyswllt a'r bwrdd gwyn rhyngweithiol a fydd yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu a rhyngweithio

Cadw eich plant yn ddiogel ar-lein

Ydy eich plant chi yn defnyddio'r rhyngwrwd yn aml?

Edrychwch ar y poster yma i helpu chi (rhieni a gofawyr) cadw eich plant yn ddiogel ar y rhyngwrwd.

Mae'r daflen gwybodaeth yma yn:

- Amlinellu rhai risgiau a buddion mae plant yn gallu profi ar-lein
- Hawliau plant
- Cyngor bellach i rieni a gofawyr
- Ffynonellau ychwanegol

Mae llawer o blant yn defnyddio'r rhyngwrwd yn aml y dyddiau yma a dywed The Condition of Education (2019) defnyddiodd canran uchel o blant y rhyngwrwd gartref yn 2017 nag yn 2010 (64% i gymharu â 58%). Cefnogwyd hyn ymhellach gan Ofcom (2019) trwy ddweud o gymharu â 2015, mae plant 5-15 oed yn fwy tebygol o fynd ar-lein ar dabled, ffôn symudol a chonsol gemau.



(Ffynhonnell: Google Images, Family Safety Teentor, 2017).

Risgiau ar-lein

CYNNWYS ANWEDDUS

Mae NSPCC (2020) yn dweud un o'r risgiau mae eich plant chi yn gallu profi yw gweld cynnwys anweddus ar-lein. Gallant ddod ar draws cynnwys nad yw'n addas i'w hoedran. Maen nhw'n rhoi enghraifft o hyn fel cynnwys o drais. Cytunwyd hefyd gan Chassiakos a Radesky et al. [2016] trwy ddweud gall plant dod i gysylltiad â chynnwys anghywir, amhriodol neu gynnwys a chysylltiadau anniogel. Mae UK Safer Internet Centre (2020a) yn honni mae rhai cynnwys ar-lein yn gallu fod yn niweidiol i blant a hefyd gallan nhw weld pethau sydd yn amhriodol i'w hoedran.

Fel gallwch chi (rhieni/gofawyr) helpu diogelu/cefnogi eich plant rhag cynnwys anweddus?

Mae internetmatters.org (2020) yn dweud;

- Dylech siarad gyda'ch plentyn am beth gallan nhw ddarganfod ar y rhyngwrwd. Helpwch nhw ddeall gallan nhw ddod ar draws pethau y byddai'n well ganddyn nhw beidio â gweld
- Byddwch yn bwylllog

Mae Victorica State Government (2017) hefyd yn cytuno trwy ddweud dylech gyfathrebu gyda'ch plentyn yn agored ac yn onest.

Mae NSPCC (2020) hefyd yn dweud;

- Dylwch siarad gyda'ch plentyn i adael nhw wybod beth sy'n briodol i'w hoedran, ac nad yw'n briodol
- 'Reassure' eu bod nhw'n gallu dod atoch, oedolyn dibynadwy arall neu Chidline os maen nhw'n poeni.

RHANNU GORMOD O WYBODAETH

Mae UK Safer Internet Centre (2020a) yn dweud mae plant yn gallu fod mewn perygl oherwydd eu hymddygiad eu hunain trwy rannu gormod o wybodaeth. Wrth ddefnyddio'r rhyngwrwd, mae'n bwysig cadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel a pheidio â'i rhannu. Cytunwyd hefyd gan THINK U KNOW.co.uk (dim dyddiad) sydd yn dweud mae plant yn rhannu gormod o wybodaeth yn codi risg. Dywed ni allwch fod yn siŵr pwy sydd wedi'i weld, cadw neu rannu.

SEIBERFWLIO

Risg arall yw seiberfwlio. Cefnogwyd hyn gan Childnet International (2018) trwy ddweud gall bod yn ddioddefwr seiberfwlio beri gofid mawr ar eich plant oherwydd gallan nhw gael negeseuon cas yn ddiennw. Mae NSPCC (2020) yn nodi roedd bron 31% o sesiynau cwnsela gan blant sy'n profi seiberfwlio ar gemau neu ar y rhwydwaith cymdeithasol. Roedd plant mor ifanc â 7 oed wedi dweud wrth gwnseler Childline eu bod nhw'n cael eu poeni gan negeseuon niweidiol. Dywed Childline (dim dyddiad) gallwch helpu rhywun sydd yn dioddef o seiberfwlio trwy adael iddyn nhw wybod eich bod chi yna iddyn nhw, helpu nhw cael cefnogaeth a helpu i dynnu eu sylw wrtho.

CAM-DRIN RHYWIOL A CHAM-FANTEISIO RHYWIOL

Rhywbeth arall sydd yn gallu fod yn berygl mawr yn y byd ar y rhyngwrdd yw cam-drin rhywiol a cham-fanteisio rhywiol sydd yn cael ei nodi yn THINK U KNOW.co.uk (dim dyddiad). Awgryma nid yw 1 o bob 3 o blant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol yn dweud wrth unrhyw un ar y pryd.

Os ydych yn meddwl mae eich plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol, mae Child Exploitation and Online Protection command (dim dyddiad) yn dweud gallwch lunio adroddiad o'r wefan:

<https://www.ceop.police.uk/safety-centre/>. Hefyd yn ôl parent INFO (2020a) gallwch gael eich plentyn i wyllo 'Jessie & Friends'. Y neges allweddol yn Jessie & Friends yw os mae plentyn yn poeni am rywbeth ar-lein, dylent ddweud wrth oedolyn maent yn ymddiried ynddo.

(Ffynhonnell: Google Images, Free Kids Games, 2016).

Y Buddion



Mae Ofcom (2018b) yn nodi mae plant yn gallu cadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu ar-lein. Mae'r rhyngwrdd yn bwysig i bob oed cadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Byddai Mental Health Foundation (dim dyddiad) hefyd yn cytuno a hyn trwy ddweud mae ymchwil yn dangos llawer o fuddion i blant fynd ar-lein fel cysylltiad â ffrindiau a pherthnasau.

Mae UK Safer Internet Centre (2020b) yn honni mae technoleg yn dod a phrofiadau addysgol i blant ac yn helpu nhw i ddatblygu eu sgiliau. Cytunwyd hefyd gan parent INFO (2020b) sydd yn dweud mae gwelliannau technoleg yn helpu pant gyda'u dysgu.

Awgryma YOUNGMINDS (2016) mae'r rhyngwrdd yn chwarae rhan bwysig wrth wella sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu.

Mae Victoria State Government (2014) yn nodi fel arfer mae gan lawer o wefannau rhwydweithio cymdeithasol gyfyngiadau oedran, fel arfer 13 oed.

HAWLIAU PLANT

Dyma rhai o'r erthyglau mae unicef UNITED KINGDOM (1989) yn nodi am hawliau blant

Erthygl 2 – Peidio â gwahaniaethu. Beth bynnag eu rhyw, crefydd, iaith a galluoedd

Erthygl 3 – Budd gorau'r plentyn i fod yn flaenoriaeth ar bob penderfyniad sy'n effeithio arnyh nhw

Erthygl 12 – Llais y plentyn. Mae gan bob plentyn yr hawl i fynegi ei farn.

Cyngor bellach i rieni/gofalwyr i gadw eich plant yn ddiogel ar-lein

Un peth rydych yn gallu gwneud er mwyn sicrhau diogelwch eich plant yw sefydlu 'Parental Controls', yn ôl NSPCC (2020). Mae'n helpu rhwystro cynnwys amhriodol. Maent yn dweud pa amser o'r dydd gall eich plentyn fynd ar-lein a pha mor hir a gallwch greu 'content filters' sydd yn rhwystro apiau a allai fod â chynnwys amhriodol.

Mae healthychildren.org (dim dyddiad) yn awgrymu gallwch greu 'Family Media Plan'. Mae'r wefan: <https://www.healthychildren.org/English/media/Pages/default.aspx> yn gallu helpu chi i wnued hyn trwy feddwl am greu nodau a rheolau i'ch teulu.

Mae Ofcom (2015) yn dweud gallwch addysgu a rhoi cyngor i'ch plant. Cefnogwyd hyn hefyd gan UK Safer Internet Centre (2020a) sydd yn dweud gallwch ofyn i'ch plant beth sy'n iawn a ddim yn iawn i'w rhannu a gofyn iddyn nhw ydyn nhw yn gwybod ble i fynd am help.

Bydd y ffynhonnellau canlynol yn rhoi fwy o wybodaeth i chi:

NSPCC: <https://www.nspcc.org.uk/keeping-children-safe/online-safety/>

Childline: <https://www.childline.org.uk/info-advice/bullying-abuse-safety/online-mobile-safety/>

UK Safer Internet Centre: <https://www.saferinternet.org.uk/>

Rhestr Cyfeirnod

Abtahi, Y. [2017]. The 'More Knowledgeable Other': A Necessity in the Zone of Proximal Development. 31(1). Ffynhonnell:
https://www.researchgate.net/publication/318780971_The_'More_Knowledgeable_Other'_A_Necessity_in_the_Zone_of_Proximal_Development. [Darllenwyd: 13eg o Fai 2020).

American College of Pediatricians. (2016). The Impact of Media Use and Screen Time on Children, Adolescents, and Families. Ffynhonnell:
<https://www.acped.org/wordpress/wp-content/uploads/6.28.16-The-Impact-of-Media-Use-and-Screen-Time-on-Children.pdf>. (Darllenwyd: 24ain o Ebrill 2020).

Bodrova, E a Leong, D. [2015]. Vygotskian and Post-Vygotskian Views on Children's Play. American Journal of Play. 7(3). Ffynhonnell:
<https://files.eric.ed.gov/fulltext/EJ1070266.pdf>. [Darllenwyd: 1af o Fai 2020].

Bupa. (2018). Children's mental health: a parent's guide. Ffynhonnell:
<https://assets.bupa.co.uk/~media/files/business/corporate-pdfs/childrens-mental-health-a-parents-guide.pdf>. (Darllenwyd: 29ain o Ebrill 2020).

Chassiakos-Reid, Y, Radesky, J. et al. [2016]. Children and Adolescents and Digital Media. American Academy of Pediatrics. 138(5). Ffynhonnell:
<https://pediatrics.aappublications.org/content/pediatrics/138/5/e20162593.full.pdf>. [Darllenwyd: 24ain o Ebrill 2020].

Child Exploitation and Online Protection command. (dim dyddiad). Are you worried about online sexual abuse or the way someone has been communicating with you online? Ffynhonnell: <https://www.ceop.police.uk/safety-centre/>. (Darllenwyd: 10fed o Fai 2020).

Childline. (dim dyddiad). Bullying and cyberbullying. Ffynhonnell:
<https://www.childline.org.uk/info-advice/bullying-abuse-safety/types-bullying/bullying-cyberbullying/>. (Darllenwyd: 10fed o Fai 2020).

Childnet International. (2018). Cyberbullying. Ffynhonnell:
<https://www.childnet.com/parents-and-carers/hot-topics/cyberbullying>. (Darllenwyd: 10fed o Fai 2020).

Chmiliar, L. [2017]. Improving Learning Outcomes: The iPad and Preschool Children with Disabilities. G:8. Ffynhonnell:

<https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC5418351/>. [Darllenwyd: 1af o Fai 2020].

Donaldson, G. (2015a). Successful Futures: Looking at the Curriculum and Assessment Arrangements in Wales. Ffynhonnell:

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/successful-futures-a-summary-of-professor-graham-donaldsons-report.pdf>. (Darllenwyd: 30ain o Ebrill 2020).

Donaldson, G. (2015b). Successful Futures: Independent Review of Curriculum and Assessment Arrangements in Wales. Ffynhonnell:

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/successful-futures.pdf>. (Darllenwyd: 4ydd o Fai 2020).

Family Safety Teentor. (2017). Stopping Child Abuse Online. (Google Images) Ffynhonnell: <https://www.teentor.com/articles/stopping-child-abuse-online.htm>. [Darllenwyd: 11eg o Fai 2020].

Fframwaith Cymhwysedd Digidol. (2019a). Y Cyfnod Sylfaen. Ffynhonnell:

<https://hwb.gov.wales/storage/ae039833-4953-456e-8caa-017af8626d89/fcd-y-cyfnod-sylfaen.pdf>. (Darllenwyd: 12eg o Fai 2020).

Fframwaith Cymhwysedd Digidol. (2019b). A Drywydd Dysgu. Ffynhonnell:

<https://hwb.gov.wales/storage/9e2cd01a-8750-4fc3-afe3-3b387a8d626c/fcd-ar-drywydd-dysgu.pdf>. (Darllenwyd: 12eg o Fai 2020).

Free Kids Games. (2016). 5 Benefits of Playing Online Games. (Google Images).

Ffynhonnell: https://freekidsgamesforkids.blogspot.com/2016/06/5-benefits-of-playing-online-games.html#.Xrxbw_ZFxcU. (Darllenwyd: 13eg o Fai 2020).

Gottschalk, F. (2019). Organisation for Economic Co-operation and Development. Impacts of technology use on children: Exploring literature on the brain, cognition and well-being. Ffynhonnell:

[http://www.oecd.org/officialdocuments/publicdisplaydocumentpdf/?cote=EDU/WKP\(2019\)3&docLanguage=En](http://www.oecd.org/officialdocuments/publicdisplaydocumentpdf/?cote=EDU/WKP(2019)3&docLanguage=En). (Darllenwyd: 24ain o Ebrill 2020).

Healthychildren.org. (dim dyddiad). Family Media Plan. Ffynhonnell:
<https://www.healthychildren.org/English/media/Pages/default.aspx>. (Darllenwyd:
11eg o Fai 2020).

House of Commons. (2019). Impact of social media and screen-use on young
people's health. Ffynhonnell:
<https://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmsctech/822/822.pdf>.
(Darllenwyd: 24ain o Ebrill 2020).

Internetmatters.org. (2020). Deal with it. Ffynhonnell:
<https://www.internetmatters.org/issues/inappropriate-content/deal-with-it/>.
(Darllenwyd: 8fed o Fai 2020).

Kolucki, B a Lemish, D. (2011). Communicating with Children: Principles and
Practices to Nurture, Inspire, Excite, Educate and Heal. Ffynhonnell:
[https://www.unicef.org/cwc/files/CwC_Final_Nov-2011\(1\).pdf](https://www.unicef.org/cwc/files/CwC_Final_Nov-2011(1).pdf). (Darllenwyd: 30ain o
Ebrill 2020).

Llywodraeth Cymru. (2015). Curriculum for Wales: Foundation Phase Framework.
Ffynhonnell: [https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-02/foundation-
phase-framework-revised-2015.pdf](https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-02/foundation-phase-framework-revised-2015.pdf). (Darllenwyd: 2il o Fai 2020).

Llywodraeth Cymru. (2017). Fframwaith Cymhwysedd Digidol. Ffynhonnell:
[https://hwb.gov.wales/storage/d1a14b50-f68c-4bb9-be71-6784b940fc32/siart-
wal.pdf](https://hwb.gov.wales/storage/d1a14b50-f68c-4bb9-be71-6784b940fc32/siart-wal.pdf). (Darllenwyd: 12eg o Fai 2020).

Llywodraeth Cymru. (2018). Fframwaith Cymhwysedd Digidol – canllawiau.
Ffynhonnell: [https://hwb.gov.wales/storage/a0a11578-fdff-4f35-be98-
1fac246915fc/canllawiau-r-fframwaith-cymhwysedd-digidol-2018.pdf](https://hwb.gov.wales/storage/a0a11578-fdff-4f35-be98-1fac246915fc/canllawiau-r-fframwaith-cymhwysedd-digidol-2018.pdf). (Darllenwyd:
12eg o Fai 2020).

Llywodraeth Cymru. (2019). Draft Statutory Guidance: A guide to Curriculum for
Wales 2022. Ffynhonnell: [https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-
storage/cd/b4/f8/7c/b7d34ffb968d9a09de4d460c/a-guide-to-curriculum-for-wales-
2022.pdf](https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/cd/b4/f8/7c/b7d34ffb968d9a09de4d460c/a-guide-to-curriculum-for-wales-2022.pdf). (Darllenwyd: 30ain o Ebrill 2020).

- Llywodraeth Cymru. (2020a). Designing your curriculum: introduction. Ffynhonnell: <https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/designing-your-curriculum/introduction/>. (Darllenwyd: 13eg o Fai 2020).
- Llywodraeth Cymru. (2020b). Curriculum for Wales guidance. Ffynhonnell: <https://hwb.gov.wales/storage/afca43eb-5c50-4846-9c2d-0d56fbffba09/curriculum-for-wales-guidance-120320.pdf>. (Darllenwyd: 13eg o Fai 2020).
- Llywodraeth Cymru. (dim dyddiad). Let's get started: A new curriculum in Wales. A guide for children, young people and families. Ffynhonnell: <https://hwb.gov.wales/storage/44b74558-5d89-4a5b-bf54-32bd6dcad1c0/a-new-curriculum-in-wales-a-guide-for-children-young-people-and-families.pdf>. (Darllenwyd: 13eg o Fai 2020).
- McLeod, S. (2018). Simply Psychology. Jean Piaget's Theory of Cognitive Development. Ffynhonnell: <https://www.simplypsychology.org/simplypsychology.org-Jean-Piaget.pdf>. Darllenwyd: 1af o Fai 2020).
- Mental Health Foundation. (dim dyddiad). Talking to your children about healthy internet use. Ffynhonnell: <https://www.mentalhealth.org.uk/sites/default/files/Talking-to-kids-healthy-internet-use.pdf>. (Darllenwyd: 13eg o Fai 2020).
- Nabavi, R. (2012). Bandura's Social Learning Theory & Social Cognitive Learning Theory. Ffynhonnell: https://www.researchgate.net/publication/267750204_Bandura's_Social_Learning_Theory_Social_Cognitive_Learning_Theory. (Darllenwyd: 2il o Fai 2020).
- National Autistic Society. (2015). Using technology – guidance for parents. Ffynhonnell: <https://www.autism.org.uk/about/family-life/using-technology.aspx>. (Darllenwyd: 13eg o Fai 2020).
- NSPCC. (2020). Online safety. Ffynhonnell: <https://www.nspcc.org.uk/keeping-children-safe/online-safety/>. (Darllenwyd: 8fed o Fai 2020).
- Ofcom. (2015). Ofcom report on internet safety measures: Strategies of parents' protection for children online. Ffynhonnell: https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0020/31754/Fourth-internet-safety-report.pdf. (Darllenwyd: 11eg o Fai 2020).

Ofcom. (2018a). Children and parents: Media use and attitudes report. Ffynhonnell: https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0024/134907/children-and-parents-media-use-and-attitudes-2018.pdf. (Darllenwyd: 24ain o Ebrill 2020).

Ofcom. (2018b). Communications Market Report. Ffynhonnell: https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0022/117256/CMR-2018-narrative-report.pdf. (Darllenwyd: 24ain o Ebrill 2020).

Ofcom. (2019). Children and parents: Media use and attitudes report. Ffynhonnell: https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0023/190616/children-media-use-attitudes-2019-report.pdf. (Darllenwyd: 8fed o Fai 2020).

Olley, L. (dim dyddiad). Piaget's Model of Cognitive Development. Ffynhonnell: <https://www.massey.ac.nz/~wwpapajl/evolution/assign2/LO/piaget.html>. (Darllenwyd: 1af o Fai 2020).

Papamichail, M a Sharma, N. (2019). Barnardo's. Left to their own devices: Young people, social media and mental health. Ffynhonnell: https://www.barnardos.org.uk/sites/default/files/uploads/B51140%2020886_Social%20media_Report_Final_Lo%20Res.pdf. (Darllenwyd: 29ain o Ebrill 2020).

Parent INFO. (2020a). NCA-CEOP'S new 'Jessie & Friends' resource to help you're your child safer online. Ffynhonnell: <https://parentinfo.org/article/nca-ceop-s-new-jessie-friends-resource-to-help-keep-your-child-safer-online>. (Darllenwyd: 10fed o Fai 2020).

Parent INFO. (2020b). 9 ways the internet can be good for your children. Ffynhonnell: <https://parentinfo.org/article/9-ways-the-internet-can-be-good-for-your-children>. (Darllenwyd: 13eg o Fai 2020).

Swist, T, Collin, Ph. et al. (2015). Social media and the wellbeing of children and young people: A literature review. Ffynhonnell: http://www.uws.edu.au/data/assets/pdf_file/0019/930502/Social_media_and_children_and_young_people.pdf. (Darllenwyd: 29ain o Ebrill).

The Condition of Education. (2019). Children's Access to and Use of the Internet. Ffynhonnell: https://nces.ed.gov/programs/coe/pdf/coe_cch.pdf. (Darllenwyd: 8fed o Fai 2020).

THINK U KNOW.co.uk. (dim dyddiad). Keep your children safe from harm.

Ffynhonnell: <https://www.thinkuknow.co.uk/parents/>. (Darllenwyd: 9fed o Fai 2020).

Turuk, M. [2008]. The relevance and implications of Vygotsky's sociocultural theory in the second language classroom. G:5. Ffynhonnell:

<https://core.ac.uk/download/pdf/25726953.pdf>. [Darllenwyd: 12eg o Fai 2020].

UK Safer Internet Centre. (2020a). What are the issues? The internet – on the whole an inspiring and positive place. Ffynhonnell: <https://www.saferinternet.org.uk/advice-centre/parents-and-carers/what-are-issues>. (Darllenwyd: 8fed o Fai 2020).

UK Safer Internet Centre. (2020b). Parenting in a digital age: What are the benefits for my child of using technology? Ffynhonnell:

<https://www.saferinternet.org.uk/blog/parenting-digital-age-what-are-benefits-my-child-using-technology>. (Darllenwyd: 13eg o Fai 2020).

Unicef UNITED KINGDOM. (1989). A summary of the UN Convention on the Rights of the Child. Ffynhonnell: https://downloads.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2019/10/UNCRC_summary-1_1.pdf?_ga=2.33402302.1060237237.1589400646-500861690.1574702909.

(Darllenwyd: 13eg o Fai 2020).

Victoria State Government. (2014). Social Networking. Ffynhonnell:

<https://www.education.vic.gov.au/Documents/about/programs/bullystoppers/smsocial.pdf>. (Darllenwyd: 13eg o Fai 2020).

Victoria State Government. (2017). Inappropriate content. Ffynhonnell:

<https://www.education.vic.gov.au/about/programs/bullystoppers/Pages/adviceinappropriatecontent.aspx>. (Darllenwyd: 8fed o Fai 2020).

Winchester, N. (2019). Technology: Health and Wellbeing of Children and Young People. Ffynhonnell: <https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/LLN-2019-0003/LLN-2019-0003.pdf>. (Darllenwyd: 3ydd o Fai 2020).

Winther-Kardefelt, D. (2017). Unicef. How does the time children spend using digital technology impact their mental well-being, social relationships and physical activity? Ffynhonnell: <https://www.unicef-irc.org/publications/pdf/Children-digital-technology-wellbeing.pdf>. (Darllenwyd: 24ain o Ebrill 2020).

YOUNGMINDS. (2016). Resilience for the Digital World: Research into children and young people's social and emotional wellbeing online. Ffynhonnell:

https://youngminds.org.uk/media/1490/resilience_for_the_digital_world.pdf.

(Darllenwyd: 13eg o Fai 2020).

Zimmerman-J, F. (2008). Children's Media Use and Sleep Problems: Issues and Unanswered Questions. Ffynhonnell: <https://files.eric.ed.gov/fulltext/ED527857.pdf>.

(Darllenwyd: 24ain o Ebrill 2020).

Portffolio

GRADEMARK REPORT

FINAL GRADE

/100

GENERAL COMMENTS

Instructor

PAGE 1

PAGE 2

PAGE 3

PAGE 4

PAGE 5

PAGE 6

PAGE 7

PAGE 8

PAGE 9

PAGE 10

PAGE 11

PAGE 12

PAGE 13

PAGE 14

PAGE 15

PAGE 16

PAGE 17

PAGE 18

PAGE 19

PAGE 20

